# Cyngor Tref *NEFYN* Town Council

<u>COFNODION</u> Cyfarfod Cyngor, Nos Fawrth 09/09/2020 ar Zoom am 7yh

**Presennol**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Catrin Roberts (Cad) | Mared Llywelyn Williams | Arfon Hughes | Gruffydd Williams | Alaw Llewelyn Roberts |
| Rhys Tudur | Rhys Llewelyn | Pat Humphreys (Clerc) | | |

1. **Ymddiheuriadau.**
   Carys Roberts, Guto Williams, Sharon Williams, Caren Jones, Cai Rees Jones, LLeucu Jones, Janice Evans, Gwynfor Jones

2. **Mosiwn i gefnogi mesurau fyddai'n atal tai rhag mynd o afael pobl leol –** Rhys Tudur
   Diolchodd Catrin ac Arfon i Rhys Tudur am baratoi y cynnig ac i aelod o CTN am baratoi ymchwil Ail Gartrefi. Cafwyd eglurhad gan Rhys Tudur ar rhai o'r pwyntiau yn y cynnig ac o beth y mae yn ceisio ei gyflawni drwy basio'r mosiwn. Mae hyn yn broblem sydd yn bodoli ers blynyddoedd lawer ond yn ddiweddar mae wedi mynd yn fater mwy difrifol sydd yn cael llawer o sylw yn y wasg a'r cyfryngau cymdeithasol. Mae dwy raglen deledu yn mynd i fod yn trafod y mater yn y dyfodol agos sef 'Pawb a'i Farn' (sydd yn darlledu o Morfa Nefyn ar y 17/09/2020) a'r 'Byd ar Bedwar' ac mae Rhys Tudur a Rhys Llewelyn yn cadw cysylltiad gyda'r cwmniau yma er mwyn ceisio cael gymaint o bobol leol i gymeryd rhan ac i leisio'u barn.
   Hefyd yn y drafodaeth, rhoddodd Gruff ddiweddariad ar gais cynllunio Tan y Mynydd, Mynydd Nefyn, gan ei fod yn mynd gerbron y pwyllgor cynllunio ddydd Iau, y 10/09/20 ac fod y pwyllgor cynllunio yn argymhell caniatau y cais er fod Cyngor Tref Nefyn wedi ei wrthod yn unfrydol ar sail y byddai gwedd ormesol iddo, a hynny ddim yn gweddu i'r amgylchfyd mewn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol, ynghyd â dadleuon eraill y gallai hyn fod yn agor y drws i geisiadau cyffelyb
   **Penderfyniad:** Pasiwyd y Mosiwn yn unfrydol.
   Penderfynwyd creu Is-bwyllgor i ddelio gyda'r mater. Rhys Tudur i ddarparu datganiad i'r wasg yn cynnwys y ddwy raglen deledu, bydd y datganiad hefyd yn cael ei yrru i bob Cyngor Cymuned/Tref yng Ngwynedd i bwyso arnynt i ddilyn arweiniad Cyngor Tref Nefyn y Cynghorau Sir a'r Llywodraeth. Trefnu taith gerdded i Bencadlys y Cyngor Sir yng Nghaernarfon i dynnu sylw at ddifrifoldeb y sefyllfa.
   Cynnig: Gruff   Eilio: Arfon

3. **Taliadau wedi eu gwneud**

   **Anfonebau wedi eu derbyn i'w talu:**
   - Cyflog y Clerc - £935.24
   - Taliad y Cadeirydd – pedwerydd taliad - £300.00
   - Nefyn Foods – Rent Siop Siarad - £780.00
   - Ashley Hughes – Offer gweinyddol - £112.78
   - Cliff Hughes – Pumed taliad contract llwybrau - £825.00 & Gwaith ychwanegol - £372.00 - £1197.00
   - D.M.Parry – Pedwerydd taliad mynwent Morfa Nefyn - £170.00
   - History Points.org - Manylion meirw rhyfel Nefyn ar ffôn clyfar - £60.00
   - O Ddrws I Ddwrs – Cyfraniad - £500.00

Clerc: Pat Humphreys
Cae'r Wydden, Lôn Isaf, Morfa Nefyn, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6BS.
• Symudol: 07901 704410 • Ebost: clerccyngortrefnefyn@gmail.com
Cadeirydd: Catrin Roberts • 07880 737298

- Mark Hughes – Peintio meinciau a tybiau blodau - £130.00
- N Power – Trydan Llyfrgell Nefyn Mehefin, Gorffennaf ac Awst - £126.54

**Taliadau wedi eu derbyn:**

- Dewi Thomas – angladd Eileen June Thomas - £655.00
- Ifan Hughes – angladd Helen Iris Griffith & Williams Evans - £1310.00

Pasiwyd yng nghyfarfod 28/05/2020 i ddirprwyo'r hawl i'r Cadeirydd a'r Clerc wneud penderfyniadau ar ran y Cyngor Tref felly mae'r taliadau eisioes wedi cael eu gwneud.

~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~

Annwyl Gyd-aelodau,
Dyma ddiweddariad am y mis diwethaf er gwybodaeth i chi.


Er mwyn eglurdeb ar y taliadau mae Pat wedi eu paratoi y mis hwn, dyma wybodaeth ychwanegol:

Taliad o £60 am ap Hanes Milwyr Nefyn-
Mae Côd QR ar gyfer hanes y milwyr o Nefyn a gollodd eu bywydau yn y ddau ryfel byd, wedi ei osod yn ymyl Cofgolofn Nefyn. Mae un o'r rhain wedi clustnodi ar gyfer pob cofgolofn ung Nghymru. Fe anfonodd Pat ebost ynglyn â hyn allan i bob un ohonom ar y pryd ond ni chafwyd ymateb. Mae posib ychwanegu at y wybodaeth sydd ar y Côd Qr yn barod. Felly os ydych yn gwybos am unrhyw hanesyn a allai fod yn ddefnyddiol, pls pasiwch o ymlaen i Pat. Ar wal Rhianfa mae'r Côd wedi ei osod.
Cysylltodd y Gwasanaeth Ambiwlans gyda Pat i ddeud fod 3diffib CTN offline h.y batris a phadiau wedi gorffen a'r cabinets wedi malu, roedd rhaid rhoi sylw i'r mater yn syth. Penderfynnodd Pat a fi archebu rhain. Mi fydd Pat yn cael hyfforddiant gan y Gwasanaeth Ambiwlans ar sut i checio'r Diffibs o hyn ymlaen er mwyn Cadw trac arnynt.
Braf cael dweud fod Gwasanaethau Llyfrgell Nefyn wedi ail agor yr wythnos yma, a diolch yn fawr iawn i Mared a Sharon am eu holl waith yn ymwneud a'r Llyfrgell. Gwerthfawrogi.
Mi gafo ni gyfarfod Zoom da iawn y noson o'r blaen lle gwnaethom drafod cynnig Rhys yn drylwyr iawn. Fel y gwyddoch, mae y diweddariad wedi ei anfon atoch ac yn dilyn hynny, mae datganiad hefyd wedi ei baratoi ar gyfer y wasg/cyfryngau/cyfryngau cymdeithasol. Mae cyfweliadau Gruff a Mared wedi eu defnyddio ar Radio Cymru heddiw ac Newyddion 7.30 S4C ac mi oedd y ddau yn siarad yn hollol wych- llongyfarchiadau. Parthed hyn-mae y cais Cynllunio ar Tan Y Mynydd ( fel y gwnes eich diweddaru) wedi ei wrthod. Mae brwydr on blaenau, i warchod tai yr ardal ar gyfer y bobl leol.
Fel y gwelwch yn y cofnodion mae Pat wedi eu paratoi, mae syniadau da iawn ar y gweill ynglyn a mynd i'r afael ar mater hwn - fel cerdded o Nefyn i Gaernarfon i gyflwyno mosiwn Rhys Tudur i Gyngor Gwynedd a chael Cynghorau plwyf/Tref eraill i ymuno â ni. Ffurfiwyd is bwyllgor yn y cyfarfod Zoom, i drefnu ymhellach ac y mae croeso i unrhyw un ohonoch fel aelodau fod yn rhan o'r pwyllgor hwn.

Diolch yn ofnadwy am eich cyfraniad unwaith yn rhagor,

Cofion a diolch,
Catrin.

Dyma'r Posteri mae Lleucu wedi eu cynllunio ar gyfer Parc Y Ddôl, diolch yn fawr iawn iddi am ei gwaith.
~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~


COVID-19
Paid â chwythu dy swigen
Don't burst your bubble
Cadwa bellter cymdeithasol pan fo'n bosib (2 fedr).
Golcha dy ddwylo cyn ac ar ôl chwarae.
Rho dy sbwriel yn y bin.
Maintain social distancing whenever possible (2 metres).
Wash your hands before and after play.
Put your litter in the bin.
Nid yw'r cae chwarae hwn yn cael ei ddiheintio.
Defnyddiwch ar eich menter eich hun.
This playground is not sanitised.
Play at your own risk.

# Sbwriel
# Rubbish



Dos ag o adref neu'i roi yn y bin,
ond paid ti â meiddio ei daflu fan hyn!

Take it or bin it, but don't you dare throw it!

